

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

23.09.16

Canolfan bywyd Betws

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Cllr Mel Nott	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Darren Mepham	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
David Bebb	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Mark Brace	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Hughes	AWEN
Sian Harrop Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ymddiheuriadau	
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Martin Jones	Heddlu De Cymru
Peter Vaughan	Heddlu De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Andrew Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Helen Fletcher	Cyfoeth Naturiol Cymru
Pippa Sabine	Cyfoeth Naturiol Cymru
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Lee Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb ddweud pwy yr oeddent yn gyflym.	
1.2	Wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y BGC) aros am yr Asesiad Llesiant, atgoffodd DM y Bwrdd y cytunwyd y dylid achub ar y cyfle i fwrw golwg ffres dros bethau a nodi'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â themâu penodol. Yn y cyfarfod diwethaf, roedd y BGC wedi cytuno i dreialu gweithdai i drafod themâu penodol.	
1.3	Byddai'r gweithdy heddiw yn canolbwyntio ar yr economi. Byddai hefyd yn gwneud y pethau hyn: Treialu'r cysyniad o gael gweithdai wedi'u targedu er mwyn creu sylfaen ar gyfer datblygu'r BGC.	

	<p>Dod i ddeall rhagor am ein gilydd fel unigolion ac am sefydliadau ein gilydd.</p> <p>Nodi canlyniadau clir sy'n seiliedig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> - gytuno ar y cyd ein bod yn mynd i'r afael â phopeth posib er mwyn cefnogi llwyddiant economaidd neu gytuno ar ffyrdd y gellir gwneud hyn yn well ar y cyd, gan gydnabod y bydd hyn yn cymryd amser; - cytuno bod cyfleodd ar gael i gydweithredu'n fwy effeithiol a phenderfynu comisiynu dull newydd o weithio; - cytuno bod angen rhesymoli, uno neu ddad-gomisiynu er mwyn osgoi dyblygu diangen neu waith anghynhyrchiol. 	
1.4	Yna, gofynnodd DM i ME arwain gweddill y gweithdy.	
2	Atgoffodd ME y Bwrdd fod Huw Jakeway a DM wedi pwysleisio yng nghyfarfod diwethaf y BGC mai dim ond er mwyn ychwanegu gwerth y dylai gytuno ar gamau gweithredu. Bydd deddfwriaeth ddiweddar, h.y. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, ynghyd â Rhaglen Lywodraethu Bum Mlynedd Llywodraeth Cymru, yn dylanwadu ar benderfyniadau'r dyfodol. Gallai'r diffyg cyllid ar ôl Brexit wneud pethau'n anos ar ardaloedd difreintiedig. Felly, roedd gyn bwysiced ag erioed o'r blaen bod y sectorau cyhoeddus, preifat a'r 3ydd sector yn cydweithio.	
2.1	Yna, rhoddodd ME gyfres o gyflwyniadau.	
3	Rhoddodd SHG gyflwyniad am Fargen Ddinesig Abertawe a'r Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH)	
3.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
4	Rhoddodd DM drosolwg o Fargen Ddinesig Caerdydd a'i goblygiadau o ran Pen-y-bont ar Ogwr.	
4.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
5	Rhoddodd Andrew Jones drosolwg o'r 'Ymyriadau Economaidd' a gynigir gan Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr.	
5.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
6	Safbwyntiau'r Partneriaid	
6.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
7	Economi'r Deyrnas Gyfunol, Cymru a'r Economi Leol	
7.1	Cyflwyniad gan Chris Sutton.	
8	Prif Ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant Economaidd	
8.1	Cylchredwyd cyn y cyfarfod.	
9	Trafodaeth mewn Gweithdy	
9.1	Yna, gofynnodd ME i'r Bwrdd ymwahanu'n 3 grŵp i ystyried rhai cwestiynau.	
9.2	Cylchredwyd y sylwadau a wnaed yn y gweithdy cyn y cyfarfod.	
10	Adolygu a Myfyrio	
10.1	Diolchodd DM i ME ac i'r hwyluswyr a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau ynghylch y digwyddiad. Gofynnodd a oedd yn gyfraniad llwyddiannus i'r Asesiad Llesiant, holodd a oedd wedi gweithio ac a ddylid ei gynnal eto.	
10.2	Noddodd MB y bu'n ddefnyddiol iawn. Nawr, rhaid canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd nesaf. Awgrymodd fod y BGC yn canolbwyntio ar un neu ddau fater allweddol a'r cyswllt rhyngddynt.	Pawb
10.3	Dywedodd SHG iddi ddysgu llawer yn y digwyddiad. Awgrymodd y dylai'r aelodau gwblhau a dychwelyd y templed a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Croesawodd y camau gweithredu pendant a nodwyd a chanmolodd ddull Pen-y-bont ar Ogwr o weithio.	

10.4	Nododd SC fod y gweithdy yn fwy gwerthfawr na chyfarfodydd blaenorol.	
10.5	Cytunodd pawb i ddefnyddio fformat tebyg yng ngweithdai'r dyfodol. Wedi trafod, cytunwyd i ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd yn y gweithdy nesaf ar 28 Tachwedd. Bydd SHG a JT yn arwain ar hyn. Cam Gweithredu: Bydd JJ yn trefnu cyfarfod cynllunio byr â JT a SHG.	SHG/JT JJ
11	Gwybodaeth y BGC	
11.1	Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gylchredwyd cyn y cyfarfod.	
11.2	Rhoddodd YS ddiweddariad cyflym ynglŷn â'r cyfarfod â Paul Lewis o Swyddfa'r Comisiynydd Plant a oedd yn ymwneud â sicrhau bod hawliau plant yn rhan annatod o asesiadau a chynlluniau llesiant.	
11.3	Cyfeiriodd YS at ddigwyddiad Asesiad Llesiant Llywodraeth Cymru ar 14 Tachwedd. Dyrannwyd 8 lle i Ben-y-bont ar Ogwr. Cam Gweithredu: Bydd JJ yn e-bostio'r aelodau i'w holi i enwebu unigolion i fynd i'r digwyddiad.	JJ
11.4	Darllenwyd a chymeradwywyd nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf.	
12	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	
12.1	28 Tachwedd 2016	